2wish

# Pecyn Gwybodaeth y Swydd Wag

## Rhif y Swydd:2WISCPT09

## Teitl y Swydd: Cydlynydd Cymorth Uiniongyrchol - Gogledd Cymru

Cefnogi'r rhai y mae marwolaeth sydyn pobl ifanc wedi effeithio arnynt

# Croeso gan Rhian Mannings MBE, Sylfaenydd a'r Prif Swyddog Gweithredol



Mae'n bleser gennyf estyn croeso cynnes i chi wrth i chi ystyried ymuno â'n sefydliad.

Sefydlwyd 2wish ar y gred na ddylai unrhyw un sy'n colli plentyn neu berson ifanc yn sydyn neu yn annisgwyl wneud hynny heb gael cynnig cymorth i'w helpu i oroesi drwy'r dyddiau tywyllaf.
Ers 2012, mae 2wish wedi derbyn dros 1300 o atgyfeiriadau ar gyfer plant a phobl ifanc a fu farw'n llawer rhy fuan. Rydym wedi cefnogi dros 6,000 o unigolion ac yn cynnig cymorth yn syth wedi'r golled ac yn yr hirdymor er mwyn i'n teuluoedd wybod ein bod bob amser yno, yn ystod y dyddiau, misoedd a'r blynyddoedd i ddod.
Mae teuluoedd a chymuned wrth wraidd popeth a wnawn fel sefydliad. Mae ein teuluoedd, gwirfoddolwyr, llysgenhadon, cefnogwyr a staff yn gwneud gwahaniaeth ac rydym oll yn rhannu'r un gred; ni ddylai unrhyw deulu beidio â chael cynnig cymorth.

A hoffech ymuno â ni a gwneud gwahaniaeth?

Os ydych yn frwd dros gefnogi'r rhai sydd wedi cael profedigaeth sydyn ac yn meddu ar y sgiliau rydym yn chwilio amdanynt, hoffem glywed gennych.

Diolch am ddangos diddordeb yn y rôl hon.

Dymuniadau gorau

RL Mannings

**Rhian Mannings MBE**
**Prif Swyddog Gweithredol a Sylfaenydd**

" Pan fydd hi'n bwrw glaw, chwiliwch am yr enfys. Pan fydd hi'n dywyll, chwiliwch am y sêr." - Dienw

Os nad yw'r swydd wag hon yn addas ar eich cyfer chi, beth am ymuno â ni fel gwirfoddolwr? Dysgwch fwy am y cyfleoedd presennol a sut i gymryd rhan drwy fynd i www.2wish.org.uk/get-involved/

# Disgrifiad o'r Rôl:

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd :** | Cydlynydd Cymorth Uniongyrchol - Gogledd Orllewin Cymru, gan wasanauethu Conwy, Gwynedd ac Ynys Mon |
| **Yn atebol i :** | Rheolwr Gwasanaeth Profedigaeth |
| **Cyflog :** | Cyflog cychwynnol o £26,500 y flwyddyn, **pro-rata ar gyfer oriau rhan** |
| **Lleoliad :** | Gweithio o gartref yn bennaf gyda theithio i gefnogi'r digwyddiadau a gynhelir yn yr ardal rydych yn ei gwasanaethu. Ychydig o deithio i Brif Swyddfa 2wish yn Ne Cymru. |
| **Oriau:** | Rhan amser, 22.5 awr yr wythnos dros 3 diwrnod |
| **Rhif y swydd:** | 2WISCPT09 |

# Cefndir 2wish:

Yn 2012, bu farw mab Rhian Burke, George, yn sydyn mewn uned achosion brys yn Ne Cymru. Er gwaethaf y staff rhagorol, a ddangosodd gefnogaeth ac empathi ar adeg ei farwolaeth, cerddodd y teulu allan i grombil y nos heb ddim, heb glywed gan neb ac fe'u gadawyd ar eu pen eu hunain i ddelio â'r sioc a'r trawma. Bum diwrnod wedi marwolaeth ei mab, bu farw Paul, ei gŵr, drwy hunanladdiad, y tu hwnt i gysur ac wedi ei lorio gan alar. Unwaith eto, roedd y teulu ar ei ben ei hun. Sefydlwyd 2wish (2 Wish Upon A Star gynt) a'r gwasanaethau cymorth dilynol o ganlyniad i'r trychineb hwn a heddiw, cânt eu rhoi ar waith mewn partneriaeth â phob bwrdd iechyd, ysbyty, heddlu, swyddfa'r crwner a thîm iechyd meddwl ledled Cymru.



# Amcan:

Mae 2wish yn bodoli er mwyn rhoi cymorth i unrhyw un yr effeithir arno gan farwolaeth sydyn neu annisgwyl plentyn neu berson ifanc 25 oed ac iau.

# Nodau:

- Sicrhau bod ystafell brofedigaeth addas ym mhob Adran Argyfwng ac uned Gofal Critigol
- Sicrhau bod blychau profedigaeth ar gael ym mhob un o'r ysbytai hyn
- Sicrhau bod cymorth profedigaeth ar gael ar unwaith i bob unigolyn yr effeithir arno gan farwolaeth sydyn plentyn neu berson ifanc
- Darparu gwasanaeth cwnsela proffesiynol a therapïau eraill i'r rhai yr effeithir arnynt gan farwolaeth sydyn plentyn neu berson ifanc
- Darparu cymorth i unigolion sy'n dyst i farwolaeth sydyn plentyn neu berson ifanc.
- Darparu cymorth a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol o unrhyw sector y mae'n bosibl bod marwolaeth sydyn plentyn neu berson ifanc wedi effeithio arnynt
- Hyrwyddo ac ymgyrchu ar ran teuluoedd mewn profedigaeth sydyn

# 2wish Cymru & 2wish:

Sefydlwyd 2wish yn 2012 ac mae'r elusen wedi mynd o nerth i nerth ers hynny. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gweithio'n ddiflino er mwyn sefydlu ein gwasanaeth ac i sicrhau y caiff cymorth ei gynnig yn syth wedi'r farwolaeth.

Rydym yn cynnig gwasanaeth cyson, tosturiol, ar unwaith ac o ansawdd uchel i bob unigolyn yr effeithir arno gan farwolaeth sydyn ac annisgwyl plentyn neu berson ifanc 25 oed ac iau yng Nghymru. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol sy'n atgyfeirio at yr elusen ar ran y teuluoedd, er mwyn sicrhau nad oes angen iddynt fynd i chwilio ar y rhyngrwyd am sefydliad a allai roi cymorth iddynt, o bosibl. Rydym yn darparu cymorth ar unwaith ac yn barhaus ac rydym ar gael i deuluoedd cyhyd ag y bydd ein hangen arnynt.

Fodd bynnag, gwyddom fod bylchau yn dal i fod yn y cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd wedi cael profedigaeth y tu allan i Gymru. Felly rydym yn ehangu i Loegr!

Ar ddechrau 2024, gwnaethom ehangu'r ardal ddaearyddol y byddwn yn darparu ein gwasanaeth iddi ac rydym wedi recriwtio tîm cwbl newydd i gefnogi defnyddwyr y gwasanaeth yn y siroedd ar y ffin, yn bennaf Swydd Gaer, Swydd Amwythig, Swydd Henffordd, Swydd Gaerwrangon, Swydd Gaerloyw a Gwlad yr Haf. Dyma'r cam cyntaf o lawer i ehangu'r gwasanaeth a'r nod yw darparu ein gwasanaeth ledled Cymru a Lloegr dros y blynyddoedd nesaf.

# Cyd-destun y Rôl:

Mae 2wish yn rhoi cymorth i unrhyw un yr effeithir arno gan farwolaeth sydyn neu annisgwyl plentyn neu berson ifanc 25 oed ac iau. Rydym yn elusen Cymru gyfan sy’n darparu cymorth gwaith achos ar unwaith, yn ogystal â gwasanaethau ôl-ofal parhaus gan gynnwys cwnsela, therapïau amgen, therapi chwarae, grwpiau cymorth, digwyddiadau cymorth a bwthyn seibiant.

Bydd deiliad y swydd yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol uniongyrchol a pharhaus i deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan farwolaeth sydyn ac annisgwyl eu plentyn neu oedolyn ifanc.

# Prif Ddyletswyddau:

## 1.0. Gwasanaeth:

1.1 : Cychwyn cymorth ar unwaith ar gyfer llwyth achosion o deuluoedd y mae eu plant a phobl ifanc 0-25 oed wedi marw’n sydyn ac yn annisgwyl ledled y sir rydych yn byw ynddi ac yn y siroedd ar y ffin

1.2 : Cysylltu â theuluoedd o fewn 24-48 awr o'r atgyfeiriadau dros y ffôn

1.3 : Cwblhau asesiad cychwynnol o anghenion teuluoedd i nodi a chynllunio'r cymorth yn ôl yr angen yn unol â diogelu a lleihau risg

1.4 : Cynnig cymorth emosiynol a chyngor i lwyth achosion o deuluoedd trwy ymweliadau cartref a galwadau ffôn wythnosol parhaus

1.5 : Cydgysylltu â’r Cydlynydd Cymorth Cwnsela ac Allgymorth, sy’n gyfrifol am drefnu cymorth ffurfiol megis cwnsela, therapi cyflenwol neu therapi chwarae, ar yr amod y ceir caniatâd gan yr unigolyn mewn profedigaeth

1.6 : Gweithio gyda staff ysbytai, meddygon teulu, swyddogion heddlu, swyddfeydd crwneriaid, timau iechyd meddwl a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo atgyfeiriadau i’r elusen

1.7 : Cydgysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cyd-weithio â'r teulu i ddarparu cymorth cyfannol ac amlasiantaethol

1.8 : Mynychu fforymau perthnasol o fewn yr ardal

1.9 : Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth mewn ysbytai a lleoliadau gofal iechyd eraill, ysgolion a gweithleoedd ar ddefnyddio’r blychau profedigaeth, gan gyfeirio at yr elusen ac ymwybyddiaeth o brofedigaeth

1.10 : Monitro'r defnydd o'r blychau atgofion a sicrhau bod teuluoedd wedi cael cynnig blwch atgofion

1.11 : Cyd-weithio gydag ymddiriedolaethau ysbyty a chynnal a chadw ystafelloedd profedigaeth addas er mwyn i unigolion mewn profedigaeth eu defnyddio yn ôl yr angen

1.12 : Hwyluso dadfriffiadau o fewn lleoliadau proffesiynol yn dilyn marwolaeth drawmatig neu sydyn plentyn neu berson ifanc

1.13 : Cynnal stoc o flychau atgofion 2wish a dosbarthu blychau i sefydliadau partner yn ôl yr angen

1.14 : Cyflwyno adroddiadau misol/chwarterol/blynyddol i Reolwr y Gwasanaethau Profedigaeth yn ôl yr angen

1.15 : Cyfeirio a/neu gyfeirio at asiantaethau eraill yn ôl yr angen a all ddarparu cefnogaeth pan fo angen

1.16 : Cyflenwi aelodau o'r tîm cymorth ar gyfer gwyliau blynyddol a/neu salwch

## 2.0. Cyffredinol:

2.1 : Bod yn gyfrifol am drefnu eich agenda gwaith eich hun, rheoli amser a gweinyddu

2.2 : Dangos parch a sensitifrwydd tuag at gredoau diwylliannol a chrefyddol teuluoedd

2.3 : Ymgymryd â chyfleoedd dysgu a'u trefnu ar gyfer y tîm

2.4 : Cydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau'r cwmni, gan gynnwys y rhai ar Ddiogelu, Cyfrinachedd, Iechyd a Diogelwch a Gweithio ar eich pen eich hun; a bod yn rhagweithiol wrth roi arferion gwaith diogel ar waith fel y bo'n briodol

2.5 : Mynychu digwyddiadau cymunedol ar benwythnosau a min nos er mwyn cefnogi'r elusen fel y bo angen

2.6 : Cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd un i un pan fo angen, a chynnal cyrsiau/hyfforddiant/gweithgareddau datblygu eraill sy'n berthnasol ar gyfer y rôl, fel y bo'n briodol

2.7 : Cyfrannu ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol a gynhelir gan 2wish

Natur y gwaith yw y gall tasgau a chyfrifoldebau fod yn anrhagweladwy ac amrywiol mewn llawer o amgylchiadau. Disgwylir felly i bob gweithiwr weithio mewn ffordd hyblyg ac efallai y bydd yn rhaid cyflawni tasgau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn benodol yn y disgrifiad swydd. Byddwch yn cael eich cyflogi yn amodol ar adolygiad ar eich perfformiad, a bydd y broses yn cynnwys adolygiad o'r dyletswyddau uchod a'ch perfformiad yn ystod y cyfnod.

**Mae'r rôl hon yn amodol ar wiriadau manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).**

# Manyleb person:

| Meini Prawf | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Profiad** | | |
| Profiad o weithio mewn lleoliad iechyd, gofal cymdeithasol neu leoliad brys | ✓ | |
| Profiad o weithio gyda phobl fregus, gan gynnwys teuluoedd a/neu blant | ✓ | |
| Profiad o reoli llwyth achos uchel gydag anghenion amrywiol | ✓ | |
| Gweithio o fewn fframwaith aml-asiantaeth a deddfwriaethol | ✓ | |
| Profiad o weithio gyda phobl mewn gofid | ✓ | |
| **Gwybodeath** | | |
| Meddu ar ddealltwriaeth dda o brofedigaeth ac effeithiau galar ar unigolion mewn profedigaeth a'u teuluoedd | ✓ | |
| Meddu ar ddealltwriaeth dda o faterion amddiffyn plant ac oedolion a sut i ymateb yn effeithiol i ddiogelu | ✓ | |
| Deall egwyddorion asesu risg a rheoli risg ar gyfer unigolion mewn profedigaeth a'u teuluoedd | ✓ | |
| Deall a bod yn ymrwymedig i faterion cyfle cyfartal ac amrywiaeth mewn polisi ac ymarfer | ✓ | |
| **Sgiliau/Cymwysterau/Galluoedd** | | |
| Meddu ar radd mewn maes perthnasol, neu ddangos profiad cyfatebol neu gymhwyster galwedigaethol | ✓ | |
| Meddu ar sgiliau rheoli argyfwng cryf a'r gallu i ddelio â sefyllfaoedd llawn straen ac anodd | ✓ | |
| Sgiliau rhyngbersonol ardderchog gyda theuluoedd a'r gallu i ffurfio perthnasoedd tosturiol wrth gynnal ffiniau proffesiynol | ✓ | |
| Y gallu i gynllunio a threfnu llwyth gwaith, gan flaenoriaethu fel y bo'n briodol; dangos tystiolaeth o sgiliau rheoli amser ac ymyrryd mewn argyfwng effeithiol | ✓ | |
| **Rhinweddau Personol** | | |
| Gyrrwr car gyda'r parodrwydd a'r gallu i yrru yn ei sir breswyl, ardaloedd cyfagos ac i'r Brif Swyddfa yn Ne Cymru | ✓ | |
| Gweithredu gydag uniondeb a pharch wrth weithio gyda phob teulumewn profedigaeth, asiantaeth ac unigolyn | ✓ | |
| Dangos blaengaredd a bod yn rhagweithiol wrth reoli eich llwyth achosion | ✓ | |
| Sgiliau cyfrifiadurol da wrth ddefnyddio Outlook, Teams, Word, Excel a PowerPoint | ✓ | |
| Siaradwr Cymraeg | ✓ | |

# Stori Teulu gan Ady Smith - Tad Ella

Roedd 13 Mehefin 2021 yn ddiwrnod hynod o braf. Ychydig a wyddem ni, cyn i'r diwrnod ddirwyn i ben, y byddai ein bywydau'n gwyrdroi ac yn newid am byth. Roedd Ella, ein merch hardd, yn mwynhau'r diwrnod gyda ffrindiau, cyn iddi fod yn rhan o wrthdrawiad traffig ffyrdd lle y bu farw yn drasig ar safle'r ddamwain. Mewn tro creulon o ffawd, roeddwn i'n un o bersonél y Gwasanaeth Tân a wnaeth ymateb i'r gwrthdrawiad.

Roedd Ella yn ferch ifanc ofalgar a oedd â chalon aur a byddai'n helpu eraill ar bob cyfle. Gellid ei disgrifio fel un a oedd wrth ei bodd yn cymdeithasu ac roedd hi'n caru ei theulu a'i ffrindiau. Roedd gwên ar wyneb Ella bob amser ac roedd wrth ei bodd yn chwarae castiau a chael hwyl.

Yn ystod yr oriau cyntaf hynny wedi marwolaeth Ella, roeddem yn cael cefnogaeth gan ein Swyddog Cyswllt â Theuluoedd pan ofynnwyd cwestiwn hynod allweddol, wrth fyfyrio arno; “A fyddech chi'n hapus i ni eich atgyfeirio at elusen 2wish?” Aeth y Swyddog Cyswllt â Theuluoedd ymlaen i esbonio ychydig am yr elusen, ond roedd gennym beth ymwybyddiaeth o'i gwaith gan ein bod wedi gweld eu sianeli cyfryngau cymdeithasol.



Yn ystod y cyfnod hwn roeddem wedi ein syfrdanu. Nid oeddem yn gwybod beth i'w wneud na ble i droi, ond o fewn 24 awr daeth 2wish yn rhan o'n bywydau (ac maent yn parhau i fod yn rhan o'n bywydau hyd heddiw). Cysylltodd Nicole â ni gan ddarparu'r ymdeimlad o lonyddwch yn ystod cyfnod, o edrych yn ôl, o ddryswch llwyr.

Aeth tîm 2wish i ymweld ag Ella, a chawsom flychau cofio ganddynt a oedd yn cynnwys olion ei dwylo a chudyn o'i gwallt. Mae hyn yn rhywbeth rydym yn diolch yn fawr iddynt. Mae'r blychau yn dod â chysur i ni ac rydym yn credu y byddent yn parhau i wneud hynny wrth i ni symud ymlaen gyda'n bywydau mewn ffordd wahanol iawn, gan fyw gyda'n galar.

Ni wnaeth y cymorth ddod i ben wedi hynny ac nid yw wedi dod i ben hyd heddiw. Rydym ni fel teulu wedi cael cefnogaeth gan gwnselwyr profedigaeth drwy'r elusen yn ogystal â'r teulu ehangach a ffrindiau agos Ella. Mae brawd Ella yn cael cefnogaeth gan Ellie, cydgysylltydd pobl ifanc, ac mae'r sesiynau hyn yn gyfle iddo gael seibiant ac i siarad. Er nad yw chwaer Ella yn cael cymorth ar hyn o bryd, mae'n ymwybodol ei fod ar gael pan fydd ei angen arni, ni waeth faint o amser fydd wedi mynd heibio. Rwyf wedi bod yn cael sesiynau cwnsela PTSD arbenigol a drefnwyd gan 2wish ac wedi mynychu sesiynau therapi cyflenwol y gwnaeth yr elusen hefyd eu trefnu.

Un atgof amlwg i ni fyddai'r clip fideo a anfonwyd at frawd Ella gan Dan Biggar (ei arwr). Bydd y llawenydd yn ei lygaid yn aros yn ein cof am byth ac yn rhywbeth na allwn fyth ddiolch digon i 2wish amdano.

Mae pob un ohonom wedi cael anghenion gwahanol ac mae'r staff yn 2wish wedi bod yn wych. Maent wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i ddod o hyd i ddatrysiadau i'n heriau ac ni wyddem le y byddem ni nawr heb eu cefnogaeth, eu harweiniad a'u cyfeillgarwch.

Rydym wedi creu cysylltiad â phobl ryfeddol drwy drychineb. Bydd 2wish bob amser yno i ni fel teulu a byddwn ninnau bob amser yno i gefnogi'r elusen, i godi arian ac i fynychu digwyddiadau er mwyn sicrhau

y bydd y gwaith anhygoel y mae'n ei chyflawni yn parhau. Ni ellir mesur yr effaith y mae'r elusen wedi'i chael ar ein bywydau ac rydym am helpu i sicrhau bod teuluoedd eraill yn elwa yn yr un ffordd â ninnau.

# Yr hyn a wnawn ar eich cyfer chi:

**Cyflog :** Cyflog cychwynnol o £26,500 y flwyddyn, **pro-rata ar gyfer oriau rhan amser**

**Math o Gontract:** Parhaol

**Oriau:** Ein horiau swyddfa arferol yw 9am - 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ond mae'n bosibl gweithio oriau amgen gyda chytundeb gan eich rheolwr llinell. Mae'n bosibl y bydd angen i chi weithio y tu allan i oriau swyddfa o bryd i'w gilydd a byddwch yn cael amser i ffwrdd yn lle'r oriau hynny

**Gwyliau Blynyddol:** 28 diwrnod yn ogystal â gwyliau banc. Bydd eich gwyliau blynyddol yn cynyddu'n raddol wedi i chi gwblhau pum mlynedd o wasanaeth. Caiff y gwyliau blynyddol a'r gwyliau statudol eu cyfrifo ar sail pro rata lle y bo'n briodol.

**Pensiwn :** Mae 2wish yn gweithredu cynllun pensiwn cyfrannol. Bydd 2wish yn eich cofrestru'n awtomatig ar y cynllun yn unol â'i rhwymedigaethau cofrestru'n awtomatig. Bydd manylion llawn am y cynllun yn cael eu rhoi i chi unwaith y byddwch wedi cael eich cofrestru, gan gynnwys yr isafswm o gyfraniadau y bydd yn rhaid i chi eu gwneud yn ystod eich cyfnod aelodaeth (cyfraniadau presennol - 3% gan y cyflogwr a 5% gan y cyflogai).

**Costau Teithio:** Rhoddir tâl cyfradd sefydlog am deithiau y cytunwyd arnynt ac a gyflawnir ar fusnes 2wish mewn cerbyd preifat, sydd yn fwy o filltiroedd na'ch taith i'r gweithle/gweithleoedd.

**Lleoliad:** Mae 2wish ar hyn o bryd yn cynnig dull hybrid o weithio a bydd hyn yn parhau i'r dyfodol rhagweladwy. Mae'r swydd hon yn un lle byddwch yn gweithio o gartref gydag ychydig o deithio i'n Prif Swyddfa yn Ne Cymru a ledled y rhanbarth rydych yn ei wasanaethu.

## Buddiannau ychwanegol ar gyfer ein cyflogeion:

- 'Cynllun Cymorth i Gyflogeion', gan gynnwys cymorth llesiant
- Parcio am ddim ar safleoedd 2wish
- Dillad 2wish wedi'u brandio am ddim
- Diwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol ar eich pen-blwydd
- Cynnydd yn y nifer o ddiwrnodau gwyliau yn seiliedig ar hyd eich gwasanaeth
- Absenoldeb salwch â thâl
- Gostyngiadau ar nwyddau 2wish a brynwch i chi eich hun
- Tocynnau am brys gostyngol i ddigwyddiadau 2wish yn y DU ar gyfer staff a'u teuluoedd
- Hawl i ddiwrnod ychwanegol o wyliau wrth gymryd rhan mewn digwyddiadau 2wish dramor
- Ffôn symudol y cwmni ar gyfer cyflawni dyletswyddau
- Adnoddau/cyfarpar sydd eu hangen ar gyfer cyflawni dyletswyddau
- Ad-dalu treuliau gwaith
- Gostyngiadau cyflogi Bright Exchange

## Sut i wneud cais:

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol, neu CV a chlip fideo dwy funud, ar e-bost i HR@2wish.org.uk

Dyddiad cau: Dydd Gwener, 19 Ebrill 2024

Rydym yn cadw'r hawl i gau ceisiadau ar gyfer y swydd wag hon yn gynnar os bydd digon o geisiadau yn dod i law ar gyfer y rôl. Felly, os oes gennych ddiddordeb, cyflwynwch eich cais cyn gynted â phosibl. Dim ond y rheini sy'n cyrraedd y rhestr fer y byddwn yn cysylltu â nhw am gyfweliad.